



Ein cyf/Our ref MA-P/VG/4524/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Mawrth 29 Rhagfyr.

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn y gellid ei osod. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiad newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn Ne Affrica. Mae'r amrywiad hwn yn wahanol i'r amrywiad yn y DU a adroddwyd i'r WHO ar 10 Rhagfyr (SARS-CoV-2 VUI 202012/01) ond gall rannu eiddo tebyg o ran trosglwyddiad uwch, sy'n cynyddu'r ystyried y dystiolaeth sy'n newid ar y risg a berir gan deithwyr o Dde Affrica mewn perthynas â'r clefyd hwn, a hefyd yr angen i sicrhau y gellir cynnal dull pedair gwlad o deithio rhyngwladol.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 7 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau berthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services